

**Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu cais gan y testun am fynediad at ddata:**

- Dylid bod mor glir â phosibl ynglŷn â pha wybodaeth yr wyt ti eisiau'i gweld.
- Os yw hyn yn anodd i ti, gofynna i ffrind neu oedolyn y gelli di ymddiried ynddo i'w ysgrifennu gyda thi neu ddarllen trwyddo.

**Templed o llythyr/e-bost cais gan y testun am fynediad at ddata**

[Cwblha'r lleoedd gwag isod gyda chymaint o fanylion ag sy'n bosibl.]

At: \_\_\_\_\_

Llinell destun: Cais gan y Testun am Fynediad at Ddata

Dyddiad: [os byddi di'n ysgrifennu llythyr ar bapur, cofia gynnwys dyddiad heddiw]

Annwyl [ysgrifenna ei enw os wyt ti'n ei wybod, neu enw'r gwasanaeth],

Hoffwn dderbyn copi o'r data personol canlynol sydd gennych chi amdanaf, ac y mae gennyf i hawl i'w weld o dan Ddeddf Diogelu Data 2018:

[dylet ti gynnwys rhestr o'r holl wybodaeth yr wyt ti eisiau. Gall hyn fod yn benodol iawn, e.e. pob e-bost gan unigolyn A i unigolyn B, neu gallai fod yn fwy cyffredinol, e.e. yr holl wybodaeth sydd gennych amdanaf o fis Gorffennaf 2018 tan fis Gorffennaf 2019.]

Os ydych chi angen unrhyw wybodaeth bellach gennyf, a wnewch chi roi gwybod i mi cyn gynted ag sy'n bosibl os gwelwch yn dda. Hoffwn i chi gysylltu â mi drwy \_\_\_\_\_ [e.e. ffôn, e-bost neu drwy'r post].

Byddai'n well gennyf pe baech chi'n anfon copi o'm data ar bapur/yn electronig [gelli di nodi a wyt ti angen derbyn dy wybodaeth ar bapur neu'n electronig].

Drwy'r gyfraith ddiogelu data, hoffwn eich atgoffa chi bod angen i chi ymateb i'm cais o fewn un mis.

Tybed a allwch chi gadarnhau eich bod wedi derbyn ac wedi darllen y cais hwn os gwelwch yn dda?

Diolch,

[ysgrifenna dy enw yma]